# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun ddydd Mercher 15 Mai 2013 am 9.30am.

## PRESENNOL

Y Cynghorwyr, I W Armstrong, R Bartley (arsyllwr), J A Butterfield, J Chamberlain-Jones, M Ll. Davies, R J Davies, J.M. Davies, S.A. Davies, P Evans, C. L. Guy, H Hilditch-Roberts, C. Hughes, T.R. Hughes, E.A. Jones. H. Ll. Jones (aelod lleol), M McCarroll, , R M Murray, W M Mullen-James, P W Owen, D Owens. T M Parry, D Simmons, B.A. Smith (Aelod Lleol), W.N. Tasker, J Thompson-Hill, J S Welch, C H Williams, C L Williams a H O Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Rheolwr Rheoli Datblygu (Paul Mead), Prif Swyddog Cynllunio (Ian Weaver), Prif Gyfreithiwr – (Cynllunio a Phriffyrdd) (Susan Cordiner), Arweinydd Tîm (Cefnogaeth) (Gwen Butler), Swyddog Gwasanaethau Cwsmeriaid (Judith Williams) a'r Cyfieithydd (Catrin Gilkes).
Roedd y Swyddog Priffyrdd, Mike Parker yn bresennol am ran o'r cyfarfod

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr, W L Cowie, P M Jones ac A Roberts a'r Pennaeth Cynllunio (Graham Boase),

DS Newidiadau i Aelodaeth – mae'r Cynghorwyr P. Duffy, P. Evans a J. Chamberlain Jones wedi cymryd lle'r Cynghorwyr B Blakeley, R L Feeley a J.A. Davies fel aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio.

## 2 DATGANIADAU CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Merfyn Parry gysylltiad personol yng nghais 16/2013/0289/PF
Datganodd y Cynghorydd Alice Jones gysylltiad personol yng nghais Cod Rhif 47/2013/0137/PFT

## 3 PENODI CADEIRYDD

Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer swydd Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio.

- Enwebwyd y Cynghorydd **Dewi Owens** gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Huw O Williams.

- Enwebwyd y Cynghorydd **Meirick Lloyd Davies** gan y Cynghorydd Alice Davies ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Cefyn Williams

- Enwebwyd y Cynghorydd **Win Mullen-James** gan y Cynghorydd Joan Butterfield ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd David Simmons.

Rhoddodd yr ymgeiswyr anerchiadau i'r pwyllgor a chynhaliwyd pleidlais gudd.

Ar ôl rownd 1 y bleidlais, diystyriwyd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies.

Cynhaliwyd ail bleidlais a dyma oedd y canlyniad:

Bwriwyd 9 pleidlais i'r Cynghorydd Dewi Owens
Bwriwyd 17 pleidlais i'r Cynghorydd Win Mullen-James

Yn unol â'r cyfansoddiad, cafodd y Cynghorydd Win Mullen-James ei ethol yn briodol yn Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio am y flwyddyn i ddod.

Cymerodd y Cynghorydd Mullen-James y Gadeiryddiaeth a diolchodd i'r Pwyllgor am y cyfle. Dymunodd y Cynghorwyr Dewi Owens a Meirick Lloyd Davies bob llwyddiant iddo.

**5 PENODI IS-GADEIRYDD**

Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer swydd Is-Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio.

Enwebwyd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies gan y Cynghorydd Alice Davies ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts.

Gan nad oedd unrhyw enwebiadau eraill, cafodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies ei ethol yn ddiwrthwynebiad i swydd Is-Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio am y flwyddyn i ddod.

**3 EITEMAU BRYS:**

Dim

**4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 19 RHAGFYR 2012.**
Cytuno fel cofnod cywir yn amodol ar y canlynol :

- Tudalen 23 (Bryn Ffynnon, Bodfari) Dylai'r pleidleisio fod yn 19 o blaid Rhoi Caniatâd (nid 10)

- Nododd y Cynghorydd M.Ll. Davies mai'r gair Cymraeg am "Abstained" oedd "Ymatal".

## 5 CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a gylchredwyd yn flaenorol) a oedd yn rhifo'r ceisiadau a gyflwynwyd sydd angen i'r Pwyllgor eu penderfynu.

***PENDERFYNWYD** y dylid:-*

*(a) cadarnhau argymhellion y Swyddogion, a oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd, a rhoi caniatâd cynllunio iddynt neu eu gwrthod yn ôl y digwydd, fel sy'n briodol dan y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991, Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref Hysbysebion 1991 ac / neu Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 i'r cynigion sy'n cynnwys y ceisiadau a ganlyn yn amodol ar yr amodau a rifwyd yn yr atodlen a gyflwynwyd:-*

**Cais rhif:** 02/2013/0149/PF

**Lleoliad:** **Mike Williams Engineering Lon Parcwr, Rhuthun**

**Disgrifiad:** Newid defnydd o gownter masnach / diwydiannol i fasnachwr adeiladu (sui generis) a chodi ffens balis derfyn newydd 2.75m o uchder

**Siaradwyr Cyhoeddus:**
**Siaradodd Mr. Dylan Jones o blaid** y cais hwn. Dywedodd Mr Jones wrth y Pwyllgor fod yr ymgeiswyr (cwmni masnachwyr adeiladu Huws Grey) wedi sefydlu eu busnes yn 1990 ar Ynys Môn. Maent wedi ehangu ers hynny ac eisiau lleoli yn Rhuthun i gynyddu eu sail cwsmeriaid. Hon fyddai eu hail gangen yn Sir Ddinbych. Credai Mr. Jones, gan fod yr eiddo dan sylw ar safle a ddynodwyd ar gyfer cyflogaeth a bod ganddo gategori defnydd B8, byddai modd ei ddefnyddio ar gyfer plymio neu gyfanwerthu heb fod angen caniatâd. Dylid derbyn y newid bwriedig hwn gan y byddai'n dod â 6 swydd i Ruthun. Roedd bwriad i wneud rhywfaint o waith tirlunio a gosod wyneb newydd ar y cwrt blaen. Nid oedd Priffyrdd wedi mynegi unrhyw wrthwynebiad a gellid gosod amodau os oedd angen. Wrth ymateb i'r gwrthwynebiadau a godwyd, nid oedd Mr. Jones yn teimlo y byddai mwy o sŵn na'r lefelau posibl ar gyfer y defnydd presennol.

**Trafodaeth Gyffredinol**:
Mynegodd y Cynghorydd D. Smith (Aelod Lleol) bryder. Deallai nad oedd cystadleuaeth busnes yn fater cynllunio ond teimlai y dylid ystyried busnesau eraill tebyg oedd yn cyflogi 30 yn yr ardal. Roedd y Cynghorydd Smith hefyd yn pryderu ynglŷn â thraffig. Er na fynegodd Priffyrdd unrhyw wrthwynebiad, dywedodd y Cynghorydd Smith wrth y Pwyllgor fod y gyffordd gyfagos i archfarchnad Tesco yn brysur a bod lorïau dosbarthu'n mynd i mewn i Tesco yn y fan honno. Nododd mai dim ond chwe safle parcio a neilltuwyd ar y safle a chredai fod hynny'n annigonol. Gallai arddangosiadau stoc ar y tu allan ostwng y gofod oedd ar gael ar gyfer parcio a throi.

Credai'r Cynghorydd H. O Williams y dylid annog buddsoddiad busnes. Mynegodd Aelodau bryderon ynglŷn â pharcio a mynediad a holwyd os gellid gosod amodau i sicrhau fod y cwrt blaen yn parhau'n ddirwystr.

Eglurodd Ian Weaver, Prif Swyddog Cynllunio nad oedd cystadleuaeth yn fater cynllunio ond roedd yn deall pryderon Aelodau ynglŷn â thraffig. Awgrymodd y gellid gosod amod i reoli cynllun y safle a pharcio. Gallai'r defnydd presennol gynnwys elfen o arddangos / masnachu allanol beth bynnag.

Dywedodd Mike Parker (Priffyrdd) nad oedd unrhyw sail priffyrdd rhesymol dros wrthod caniatâd**.**

**Cynigion:**

Cynigiodd y Cynghorydd H. O. Williams y dylid RHOI CANIATÂD
Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Rhys Hughes

Wrth bleidleisio

**25 pleidlais i ROI CANIATÂD**
**0 pleidlais i WRTHOD**
**0 wedi Ymatal**

**FELLY RHODDWYD CANIATÂD**

**Rhif Cais:** 05/2012/1396/PF

**Lleoliad:** **Tir yn (rhan o ardd) The Cottage, Carrog Corwen**

**Disgrifiad:** Codi annedd sengl a garej sengl ar wahân, addasiadau i'r fynedfa bresennol i gerbydau a gwaith cysylltiedig

Gwybodaeth atodol a adroddwyd yn y taflenni sylwadau hwyr gan:
Bwyllgor Neuadd Bentref Carrog
I a B Lebbon, Pentir Carrog.

**Siaradwyr Cyhoeddus:**
**Yn erbyn: Mr Rhys Webb**.
Dywedodd Mr Webb fod nifer o drigolion lleol yn teimlo fod y cais yn rhy fawr i'r plot. Ystyrir yr ardal hon i fod yn ganolbwynt y pentref, gyda'r ysgol a neuadd y pentref gerllaw. Roedd angen cladin cerrig ar estyniadau diweddar i neuadd y pentref ond deallai Mr Webb y byddai'r annedd bwriedig wedi'i greu o ddeunyddiau modern. Teimlai y gallent adeiladu mewn rhan arall o'r pentref gan fod tir ar gael.

**O blaid: Peter Matischok (asiant)**. Nododd Mr. Matischok nad oedd amheuaeth am ag egwyddor y datblygiad gan fod y plot o fewn terfyn y pentref. Mae'r plot yn ardd sydd wedi gordyfu'n rhannol gyda mynedfa bresennol i gerbydau. Bwriedir cynnwys nodweddion dylunio traddodiadol yn y dyluniad ac mae gofod digonol ar gael ar gyfer gardd y gellid ei defnyddio. Nid oedd Mr. Matischok yn credu fod hwn yn orddatblygiad; ac ni fyddai'n arwain at edrych dros, na cholli preifatrwydd i eiddo cyfagos. Byddai coed aeddfed yn cael eu cynnal a bydd y coed ffrwythau fydd yn cael eu torri i lawr yn cael eu disodli.

**Trafodaeth Gyffredinol**:
Dywedodd y Cynghorydd Huw Llewelyn Jones (aelod lleol) fod hwn yn orddatblygiad o'r safle, a nododd fod y ffotograffau a arddangoswyd yn dangos nad oedd yr ardd wedi gordyfu. Awgrymodd y gellid gosod gwydr aneglur ar unrhyw ffenestri cefn er y byddai'r pwrpas yn cael ei golli pan fyddent ar agor. Fodd bynnag roedd yn gobeithio y byddai'r pwyllgor yn gwrthod rhoi caniatâd.

Er bod y Cynghorydd M. Ll. Davies yn cytuno gyda'r Cynghorydd Jones, holodd a fyddai modd gosod cladin cerrig ar rannau o'r drychiadau blaen a dwyreiniol. Lleisiodd Aelodau eraill y farn eu bod yn credu fod y cais hwn yn orddatblygiad o'r tir, ac nid oeddent eisiau colli'r berllan.

Eglurodd y Prif Swyddog Cynllunio Ian Weaver nad oedd dadl ynglŷn ag egwyddor y datblygiad gan ei fod mewn pentref sefydledig. Mae pwysau i

ddarparu tai i gefnogi cymunedau lleol.  Cyfeiriodd Mr Weaver yr Aelodau at y cynllun lleoliad a oedd yn dangos mai traean o’r safle fyddai’n cael ei ddatblygu, a oedd yn awgrymu nad oedd hwn yn orddatblygiad. Roedd yr ardd yn rhagori ar safonau’r Cyngor ar gyfer gofod amwynder o 40 m sg.  O safbwynt y ffenestri, cyfeiriodd Mr Weaver at amod 17 sy’n ei gwneud yn ofynnol i gael manylion pellach ynglŷn â ffenestri ac awgrymodd y gellid gofyn am ffenestri wedi’u crogi o’r top.  O safbwynt y manylion gwaith cerrig, gan fod cymysgedd o orffeniadau yn yr ardal nid oedd yn teimlo fod hwn yn gais rhesymol.

Dywedodd Mike Parker (Priffyrdd) ei fod wedi ymweld â’r safle ond nad oedd ganddo unrhyw wrthwynebiadau ar sail priffyrdd gan y bydd y cais yn defnyddio mynedfa bresennol drwy giât.

**Cynigion:**

Cynigiodd M. Ll. Davies, pe bai caniatâd yn cael ei roi, y dylid gosod amod yn ei gwneud yn ofynnol i gael gorffeniad carreg i’r drychiadau blaen a dwyreiniol, lle roeddent yn y golwg uwch ben y wal ar ymyl y ffordd.

Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd J. Thompson Hill

Wrth bleidleisio

**Pleidlais:**
9 pleidlais i gynnwys yr amod a awgrymwyd
11 pleidlais i beidio ei gynnwys
4 yn ymatal

Felly, cafodd y cynnig ei golli.

Cynigiodd y Cynghorydd Stuart Davies y dylid GWRTHOD rhoi caniatâd oherwydd gorddatblygu a’r effaith ar amwynder cyfagos.
Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Cefyn Williams

Wrth bleidleisio

**PLEIDLAIS:**
**13 pleidlais i ROI CANIATÂD**
**11 pleidlais i WRTHOD**
**0 yn Ymatal**

**FELLY RHODDWYD CANIATÂD**

***Yn amodol ar:*** Nodyn Newydd i’r Ymgeisydd

Gofynnir i chi gysylltu â Swyddog Achos yr Adain Gynllunio i drafod y defnydd o ddeunyddiau ar waliau allanol yr annedd o gofio lleoliad y safle, cyn cyflwyno'r manylion sydd angen gan Amod 2 y caniatâd hwn.

**Rhif Cais:** 06/2013/0253/PFT

**Lleoliad:** **Lletty Llety Road Gwyddelwern Corwen**

**Disgrifiad:** Gosod tyrbin gwynt 500 kW hyd at 77m i ben y llafn (uchder o hyd at 50m i'r canolbwynt), traciau mynediad ac arwyneb caled, gorsaf drawsnewid a gwaith ategol

Gwnaeth Swyddogion gais i ohirio'r cais er mwyn caniatáu ystyriaeth lawn o'r tirlun a'r Asesiad Effaith Weledol a dderbyniwyd yn ddiweddar.

Yn dilyn pleidlais drwy godi dwylo, gohiriodd y Pwyllgor y Cais.

(Holodd y Cynghorwyr ynglŷn â'r diffyg ymateb gan Gyngor Cymuned Gwyddelwern. Eglurodd Swyddogion nad oeddent fel arfer yn ymateb os nad oedd gwrthwynebiad.)

**Rhif Cais:** 11/2013/0136/PFT

**Lleoliad:** **Cil Llwyn Bontuchel Rhuthun**

**Disgrifiad:** Gosod tyrbin gwynt micro gynhyrchu 50kw gyda blwch rheoli ac adeiladu trac mynediad

TYNNWYD Y CAIS hwn yn ôl gan yr ymgeisydd

**Rhif Cais:** 16/2013/0289/PC

**Lleoliad:** **Tir ym Mhen Y Waen Llanbedr Dyffryn Clwyd Rhuthun**

Disgrifiad: Cadw adeilad amaethyddol ar gyfer cadw anifeiliaid fferm (cais ôl-weithredol)

Datganodd y Cynghorydd Merfyn Parry gysylltiad personol yn y cais

Mynegodd y Cynghorwyr bryderon ynglŷn â natur ôl-weithredol y datblygiad hwn, a chodwyd y mater o unigolion yn adeiladu dan Hawliau Datblygiad a Ganiateir, gan newid defnydd adeilad heb ofyn am ganiatâd.

Eglurodd y Prif Swyddog Cynllunio Ian Weaver nad oedd angen caniatâd cynllunio ar gyfer yr adeilad hwn fel storfa ond roedd angen caniatâd i ddefnyddio'r adeilad ar gyfer anifeiliaid. Mewn ymateb i'r cwestiynau, nododd Mr. Weaver nad oedd yn rhesymol i osod amodau'n ymwneud â lliw na'i wrthod ar sail amwynder. Eglurodd y broses o "Flaen Hysbysiad". Holodd y Cynghorydd D. Owens ynglŷn â charthion yr anifeiliaid. Eglurodd y byddai hwn yn fater trwyddedu i Gyfoeth Naturiol Cymru a asesodd hwn fel risg amgylcheddol isel ac nid oedd ganddo unrhyw bryderon.

Wrth bleidleisio

**PLEIDLAIS:**
**19 pleidlais i ROI CANIATÂD**
**5 pleidlais i WRTHOD**
**0 yn Ymatal**

**FELLY RHODDWYD CANIATÂD**

**Rhif Cais:** 46/2012/1522/PF

**Lleoliad:** **Ysgol St. Winifreds Heol Esgob Llanelwy**

**Disgrifiad:** Codi 21 annedd, mynedfa a chreu ardal chwarae i blant (babanod)

Adroddwyd sylwadau atodol ar y daflen sylwadau hwyr gan:

Dafydd Jones, 14 Ffordd Siarl, Llanelwy

Gofynnodd y Cynghorwyr am wybodaeth ynglŷn â llifogydd yn yr ardal ac a oedd y cais hwn yn orddatblygiad o'r safle.

Eglurodd y Rheolwr Rheoli Datblygu Paul Mead hanes y safle. Rhoddwyd caniatâd yn wreiddiol ar gyfer 17 annedd. Roedd y cais presennol am 21 annedd ond roedd yn dal i ddiwallu safonau dwysedd ar gyfer y safle. Roedd swyddogion yn ymwybodol o'r llifogydd diweddar yn Llanelwy a oedd yn ddigwyddiad eithriadol. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gwneud awgrymiadau ar gyfer lefelau llawr ac roedd hyn wedi'i gynnwys yn Amod 11. Mewn ymateb i'r cwestiwn, eglurwyd y byddai hyn yn cael ei gyflawni drwy godi lefel y tir, ac nid drwy osod stepiau i'r eiddo.

**Cynigion:**

Cynigiodd y Cynghorydd M. Ll. Davies y dylid RHOI CANIATÂD
Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Bill Tasker

Wrth bleidleisio

**PLEIDLAIS:**
**22 pleidlais i ROI CANIATÂD**
**1 pleidlais i WRTHOD**
**0 yn Ymatal**

**FELLY RHODDWYD CANIATÂD**

*Yn amodol ar gwblhau cytundeb A.106:*
Sicrhau 6 uned fforddiadwy a swm gohiriedig o £60,168.96 i ddarparu a chynnal gofod agored

.

**Rhif Cais:** 47/2013/0373/PS

**Lleoliad:** **Maes Carafanau Penisa'r Mynydd Ffordd Caerwys Rhuallt Llanelwy**

**Disgrifiad:** Amrywio amod rhif 3 caniatâd cynllunio cod rhif 47/2005/1170 i ganiatáu defnydd o uned breswyl (byngalo) fel annedd ar wahân yn gysylltiedig â Maes Carafanau Penisa'r Mynydd (dileu'r cyswllt ag annedd Penisa'r Mynydd)

Deallai'r Cynghorydd B. Smith (aelod lleol) nad oedd amod ar hyn o bryd yn cysylltu'r tŷ â'r Maes Carafanau. Roedd yn credu fod gwrthwynebiad y Cyngor Cymuned yn seiliedig ar hyn ond roedd yn credu eu bod yn ofni y gallai'r caniatâd hwn ganiatáu'r perchennog i werthu'r tŷ ar wahân. Fodd bynnag, deallwyd fod rheolwr y safle ar hyn o bryd yn byw un o'r carafanau ac y byddai caniatáu'r amrywiad yn ei ganiatáu i symud i'r byngalo. Byddai hefyd yn ei gwneud yn bosibl i gysylltu'r byngalo gyda'r safle. Roedd y Cynghorydd Smith yn fodlon egluro hyn i'r Cyngor Cymuned.

**Cynigion:**

Cynigiodd y Cynghorydd Joan Butterfield y dylid RHOI CANIATÂD
Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd D. Simmonds

Wrth bleidleisio

**PLEIDLAIS:**
**21 pleidlais i ROI CANIATÂD**
**1 pleidlais i WRTHOD**
**1 yn Ymatal**

**FELLY RHODDWYD CANIATÂD**

**EITEM 7**

**ADRODDIAD I OFYN AM BENDERFYNIAD AR GAIS CYNLLUNIO RHIF 47/2013/0137**

**GOSOD 1 TYRBIN GWYNT MICRO GYNHYRCHU 50Kw GYDA BLWCH RHEOLI A THRAC MYNEDIAD**

## Marian Mawr, Cwm, Rhyl

**Siaradwyr Cyhoeddus**
**Karen Roden (Yn Erbyn)**

Eglurodd Ms Roden nad oedd wedi siarad ar y cais hwn yn y pwyllgor blaenorol gan nad oedd yn credu y byddai'r pwyllgor yn ei gymeradwyo.

Teimlai y dylid gwrthod y cais hwn gan ei fod mewn AoHNE ac ond 700m i ffordd o Glawdd Offa, byddai rhoi caniatâd i'r tyrbin hwn yn gosod cynsail pwerus.

**Aled Morris (o blaid)**

Siaradodd Mr Aled Morris o blaid y datblygiad. Fel ffermwr ifanc, teimlai Mr Morris ei bod yn bwysig i'r diwydiant ffermio barhau ar gyfer cenedlaethau i ddod. Roedd yn siomedig fod yn rhaid iddo ddychwelyd i'r pwyllgor ond eglurodd ei fod wedi bod yn ofalus cyn dewis safle'r tyrbin a'i fod wedi gwahodd y Pwyllgor AoHNE i ymweld ond eu bod wedi gwrthod. Mae bil trydan y fferm yn uwch na £20,000 ac mae Mr Morris yn gobeithio gostwng hwn ac ôl troed carbon y fferm.

**Trafodaeth Gyffredinol**

Eglurodd Paul Mead (Rheolwr DC) y rheswm dros ailgyflwyno'r cais hwn i'r pwyllgor. Byddai'n mynd yn sylweddol groes i'r Cynllun Datblygu Unedol. Roedd wedi'i hysbysebu fel achos o fynd yn groes i'r polisi a chafwyd gwrthwynebiadau pellach gan yr Ymgyrch Dros Ddiogelu Cymru Gwledig, Cerddwyr Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Sir y Fflint ac Ymgynghorydd Tirlun y Cyngor. Roedd dau ar bymtheg o unigolion preifat wedi gwrthwynebu ac roedd 9 wedi ysgrifennu o blaid. Daw'r cyfnod ar gyfer derbyn sylwadau i ben ar 21 Mai 2013. Dywedodd Mr Mead wrth y pwyllgor, er bod Llywodraeth Cymru yn ystyried cais i "Alw'r Cais i Mewn", mae'r penderfyniad ar y cais yn un i'r pwyllgor ar hyn o bryd. Os penderfynir caniatáu'r cais, mae'r adroddiad yn cynnwys amodau a awgrymir.

Mynegodd y Cynghorydd Barbera Smith (Aelod lleol) siom bod yn rhaid iddi siarad eto ar y cais hwn ond nododd fod cynsail wedi'i osod yn barod. Bydd y tyrbin hwn yn cael ei osod ymhellach i lawr y llethr felly ni fydd modd ei weld dros yr adeiladau. Nododd y Cynghorydd Smith fod yr AoHNE yn cynnwys peilonau

ac unedau diwydiannol ac ystyrir pob cais ar ei rinweddau ei hun. Dylid cefnogi ffermwyr gan eu bod yn diogelu'r tir. Anogodd y Cynghorydd Simth y dylid rhoi caniatâd gan ei fod yn cyflawni'r meini prawf ym mholisi MEW 2.

Siaradodd y Cynghorydd H. O. Williams yn gryf o blaid, gan nodi nad maes chwarae oedd yr AoHNE. Nododd nad oedd llawer o wrthwynebiad lleol. Er nad oedd eisiau i'r AoHNE gael ei gorchuddio gan dyrbinau roedd eisoes peilonau a mastiau yn yr ardal.

Cynigiodd y Cynghorydd S. Davies y dylid RHOI CANIATÂD
Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Merfyn Parry.

Gofynnwyd am bleidlais wedi'i chofnodi ond gan na wnaeth digon o aelodau nodi cefnogaeth i hyn; aeth y pleidleisio yn ei flaen fel arfer.

Wrth bleidleisio

**21 pleidlais i ROI CANIATÂD**
**5 pleidlais i WRTHOD**
**0 yn Ymatal**

**O ran materion o drefn**
Nododd Paul Mead bod angen aros i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben cyn rhoi tystysgrif penderfyniad. Os caiff y cais ei alw i mewn gan Lywodraeth Cymru byddai'r tu allan i ddwylo'r Awdurdod Lleol.

Gan y rhoddwyd caniatâd roedd angen cymeradwyo'r amodau a awgrymwyd.
Mewn perthynas â'r rhestr o amodau a awgrymwyd:
**Siaradwyr Cyhoeddus**.

Mynegodd **Karen Roden (yn gwrthwynebu)** ei siom a theimlai nad oedd y pwyllgor wedi bod yn deg gyda hi fel llais unigol. Credai fod y tyrbin yn rhy uchel.

(Codwyd pwynt o drefn gan y Cynghorydd Colin Hughes ar y mater o alw siaradwyr yn ôl. Teimlai'r Cynghorydd S. Davies y dylai'r Pwynt o Drefn gymryd blaenoriaeth dros y drafodaeth gan ei fod yn ymholiad dilys. Fodd bynnag, ni chafodd y pwynt o drefn hwn ei glywed).

Diolchodd **Aled Morris (yr ymgeisydd)** i'r pwyllgor ac roedd yn fodlon gyda'r amodau a gynigiwyd. O safbwynt uchder, dywedodd fod y tyrbinau a ddangosir ar y map a gylchredwyd yn dangos uchder y canolbwynt a nodwyd y byddai canolbwynt y tyrbin ar uchder o 36m.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, nododd Paul Mead fod yr amodau'n rhai safonol a ddefnyddiwyd mewn perthynas â cheisiadau tebyg am dyrbinau, gan gynnwys Amod 12 yn ymwneud â sŵn.

Wrth bleidleisio

**25 pleidlais i gymeradwyo'r amodau**
**0 pleidlais i wrthod**
**1 yn Ymatal**

**EITEM 9**
**ADRODDIAD I OFYN AM BENDERFYNIAD AR YR AMODAU CYNLLUNIO I'W CYSYLLTU Â CHAIS CYNLLUNIO RHIF 42/2012/1638**

**DATBLYGU 0.1HA O DIR DRWY GODI UN ANNEDD (CAIS CYNLLUNIO AMLINELLOL YN CYNNWYS MYNEDIAD)**

**MOUNT HOUSE, DYSERTH, RHYL**

Cyflwynwyd: Adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn awgrymu amodau i'w gosod ar y caniatâd cynllunio a RODDWYD gan y pwyllgor ar 15 Ebrill 2013.

Ni chafwyd trafodaeth ar yr eitem hon.

Wrth bleidleisio

**22 pleidlais i gymeradwyo'r amodau**
**0 pleidlais i wrthod**
**0 yn Ymatal**

**EITEM 10**

## APÊL CYNLLUNIO

## NEWID DEFNYDD UNED ADWERTHU (DOSBARTH A1) YN GAFFI (DOSBARTH A3)

## ELLIE LOUISE , STRYD Y FARCHNAD, RHUTHUN

## CAIS RHIF 02/2013/0099/PF

Cyflwynwyd: Adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn rhoi gwybod i'r pwyllgor am yr apêl a dderbyniwyd a fydd yn cael ei datrys drwy Wrandawiad Anffurfiol.   Gofynnwyd i'r Pwyllgor benodi dau gynrychiolydd i fod yn bresennol yn y Gwrandawiad, yn unol â'r protocol a fabwysiadwyd.

PENDERFYNWYD: Fod y Pwyllgor yn penodi'r Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts a'r Cynghorydd Bobby Feeley i gynrychioli'r Pwyllgor Cynllunio yn y Gwrandawiad Anffurfiol ar 16 Gorffennaf 2013.

**EITEM 11**

**YR AWGRYM I GREU GWEITHGOR YNNI GWYNT**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd er gwybodaeth i ddiweddaru Aelodau ar y cais a wnaed gan y Pwyllgor Cynllunio ym mis Chwefror 2013 i greu gweithgor newydd i archwilio'r materion cynllunio yn gysylltiedig â datblygiadau ynni gwynt ac arallgyfeirio ffermydd yn y Sir.

Penderfynwyd: Dylid derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.  Cytunwyd hefyd i symud ymlaen i gynhyrchu Canllaw Cynllunio ar Ynni Adnewyddadwy drwy Grŵp Llywio'r Cynllun Datblygu Lleol.

**FFERM WYNT FWRIEDIG COEDWIG CLOCAENOG**
**(Adroddiad Llafar er gwybodaeth)**

Hysbysodd y Swyddog Cynllunio Ynni Adnewyddadwy Neil Walters y Pwyllgor fod y cais ar gyfer Fferm Wynt Coedwig Clocaenog wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ac mae'n rhaid i bartïon sydd â diddordeb ac yn dymuno gwneud sylwadau gofrestru eu bwriad gyda'r Arolygiaeth Gynllunio erbyn 12 Mehefin 2013.

Wrth ateb cwestiynau'r Aelodau, mewn perthynas â llwybr y ceblau o Lanelwy i'r Ffermydd Gwynt yn yr Ardal Chwilio Strategol, dywedodd Mr Walters fod Scottish Power wedi cyhoeddi'r llwybr a ffafrir ganddynt ond fod hwn ar y cam cyn gwneud cais.  Bydd cyfnod ymgynghori.

**CYFLWYNIAD GAN Y BBC**

**Rhaglen BBC 2 “The Planners” – Cais i Ffilmio Proses Gynllunio a Phwyllgor Cynllunio Sir Ddinbych**

Anerchodd Dympna Jackson, cynhyrchydd rhaglen BBC 2 “The Planners” y Pwyllgor i ofyn am gefnogaeth i gynnwys Sir Ddinbych yn ail gyfres y rhaglen. Eglurodd y byddai angen ffilmio trafodaethau yn y Pwyllgor Cynllunio wrth ddilyn ceisiadau cynllunio penodol drwy’r broses o wneud penderfyniadau.

Atebodd Dympna Jackson gwestiynau gan aelodau a oedd, yn bennaf, yn falch i gael eu cynnwys yn y prosiect.  Clywodd y rhai nad oeddynt wedi gweld y gyfres gyntaf ei bod ar gael ar-lein, neu gallai’r BBC ddarparu recordiadau.

Y casgliad oedd bod yr Aelodau’n teimlo y byddai cael eu cynnwys yn y rhaglen yn beth positif. Byddai hefyd yn hyrwyddo Sir Ddinbych fel ardal ddeniadol gan felly roi hwb i dwristiaeth

Daeth y cyfarfod i ben am 12:50 pm